# Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

**2008 mccc 1**

## 11 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau a roddir gan y Mesur hwn yn arferadwy gan offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

- (a) i wneud darpariaeth sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau sy'n cynnwys arfer disgresiwn;
- (b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;
- (c) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol; a
- (d) i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, arbed neu drosiannol y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn addas.

(3) Caniateir arfer unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Mesur hwn (yn ogystal â bod yn arferadwy mewn perthynas â phob achos y mae'n ymestyn iddo) mewn perthynas â'r holl achosion hynny yn ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos neu ddosbarth ar achos.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i reoliadau y mae is-adran (6) yn gymwys iddynt.

(6) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sydd—

- (a) yn cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ran o destun Deddf Seneddol neu un o Fesurau'r Cynulliad, neu
- (b) yn cynnwys y rheoliadau cyntaf o dan adran 1(1), neu

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/02/2011.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, Adran 11. (See end of Document for details)*

(c) yn cynnwys rheoliadau yn gwneud darpariaeth o dan adran 1(4)(b), adran 1(5), adran 3 neu adran 5, neu

(d) yn cynnwys y rheoliadau cyntaf i wneud darpariaeth o dan adrannau 2, 4, 6, 7 neu 9,

oni bai i ddrafft o'r offeryn gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Nid oes dim yn y Mesur hwn i'w ystyried fel petai'n cyfyngu ar gyffredinolrwydd adrannau 1(1) a 12(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 14(3)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 7.2.2011 gan O.S. 2011/211, ergl. 2, **Atod.**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/02/2011.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, Adran 11.